Siarad, Dysgu, Gwneud:

Dysgu'ch plant am arian

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gan Made of Money, sef prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol. Cafodd yr holl wybodaeth ei gwirio cyn ei chyhoeddi ac mae'n gywir hyd y gwyddom. Nid yw'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol na'i bartneriaid yn gyfrifol am wallau nac am wybodaeth na chafodd ei chynnwys neu sy'n amherthnasol bellach. Ceisiwch gyngor arbenigol os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu gymorth ynglŷn ag unrhyw beth sydd wedi ei gynnwys yn y llyfryn hwn.

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

QUAKER SOCIAL ACTION

Adnodd a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn yn cynnig syniadau ar gyfer addysgu'ch plant mor ifanc â thair oed am arian. Fel a drafodwyd yn y sesiwn arian o'ch cwrs rhianta, chi yw prif athro neu athrawes eich plentyn o ran arian. Ond cofiwch, nid oes angen i chi fod yn arbenigwr i'w helpu. Gall y rhan fwyaf o'r hyn sydd angen ei ddysgu gan eich plentyn ddigwydd fel rhan o weithgareddau dyddiol.

Gall plant ddechrau dysgu am arian o oed ifanc iawn. Mae llawer o'r hyn sydd angen iddynt ei ddysgu fel oedolion i reoli arian yn dda eisoes yn ei le erbyn saith oed e.e. dysgu aros am bethau. Gallant ddysgu sgiliau newydd hefyd wrth iddynt ddod yn oedolion, felly nid yw byth yn rhy hwyr i'w helpu.

Efallai y byddwch o'r farn na ddylai plant feddwl am arian hyd nes iddynt fod yn hŷn ond mae hi'n amser gwych i ddechrau arni! Y gyfrinach yw cyflwyno pethau sy'n addas i'w hoedran.

Rhennir y llyfryn hwn yn bethau syml allwch chi eu gwneud gyda'ch plant ar wahanol oedrannau. Mae yna syniadau hefyd ynglŷn â ffyrdd o ddysgu plant am arian yn y cartref neu yn yr archfarchnad, ac am arian poced. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth hefyd ar ble i fynd i gael help os ydych yn bryderus am eich materion ariannol chi.

Os hoffech gael gwybod rhagor, mae gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol adran wych ar ddysgu'ch plant am arian — yn cynnwys fideos allwch chi eu gwylio gyda'ch gilydd.

www.moneyadviceservice.org.uk/cy/categories/talking-to-your-children-about-money

Cyn i chi gychwyn arni, cofiwch y bydd llawer o'r pethau y siaradoch amdanynt yn eich cwrs rhiant o gymorth i chi wrth i chi drafod arian â'ch plant. Mae **empathi** yn enghraifft wych. Bydd plant yn gofyn am bethau, ac ambell waith yn strancio os na chânt yr hyn a ddymunant. Yn hytrach na dweud 'Na', dangoswch ychydig o empathi. Siaradwch am yr hyn maent yn ei ddymuno ac eglurwch pam na allant ei gael. Mae dangos empathi yn eu helpu i wybod eich bod yn gwrando arnynt ac yn deall.

Er enghraifft gallech ddweud:

"Dwi'n gallu gweld dy fod di wirioneddol eisiau hwnna. Fedrwn ni ddim ei brynu heddiw oherwydd rydyn ni angen ein harian ar gyfer prynu bwyd yr wythnos yma, ond beth am ei ychwanegu at dy restr pen-blwydd?"

"Dwi'n gweld dy fod wrth dy fodd dy fod wedi cynilo ar gyfer hwnna!"

"Dwi'n medru dweud dwyt ti ddim yn siŵr a ddylet ti gynilo dy arian neu ei wario ar bethau da. Dwi'n gallu dweud dy fod yn meddwl yn galed am hyn."

"Dwi'n gweld dy fod yn drist oherwydd dy fod di heb gael beth oeddet ti eisiau. Beth am siarad am hyn?"

Pwnc arall y siaradoch amdano oedd **canmol**. Mae canmol plant yn helpu i annog ymddygiad da ac yn dweud wrthynt eu bod ar y trywydd cywir gyda'u dysgu. Gallwch wneud hyn gydag arian hefyd.

Rhai enghreifftiau efallai:

"Rwyt ti'n gwneud yn dda yn cadw dy arian yn ddiogel."

"Rwyt ti'n meddwl yn galed am sut i wario dy arian."

"Rwyt ti'n llwyddo'n dda iawn i gynilo!"

"Rwyt ti'n hael iawn."

"Diolch am wrando pan wnes i ddweud na allen ni brynu hwnna."

"Rwyt ti wedi bod o help mawr i mi heddiw wrth arbed arian yn y siop. Diolch!"

Addysgu'ch Plentyn: 3-4 oed

Yn yr oedran hwn, mae plant yn dysgu trwy chwarae a gwylio pobl eraill. Cadw pethau'n syml yw'r gyfrinach i gael hwyl. Dyma rai ffyrdd o ddechrau arni:

Drwy chwarae

- ✓ Mae plant wrth eu bodd yn chwarae siop. Gwnewch y cyfan mor real â phosibl, drwy roi prisiau ar eitemau i ddangos bod pethau'n costio arian.
- ✓ Dechreuwch ddangos y gwahaniaeth rhwng gwahanol ddarnau arian. Eglurwch fod dau ddarn 1 geiniog yn gwneud 2 geiniog ac ati.
- ✓ Bydd defnyddio arian go iawn yn helpu plant i ddeall mai nid chwarae yn unig yw defnyddio arian. Gadewch iddynt afael mewn arian a dod yn gyfarwydd ag arian.
- ✓ Defnyddiwch hyn fel cyfle i egluro bod angen cynilo i gael rhagor pan fydd arian yn brin. Gosodwch gyllideb wrth chwarae'r trip siopa. Pan fydd y gyllideb wedi'i gwario ni allwch brynu rhagor, felly mwynhewch yr hyn sydd gennych chi yn hytrach.





Chwarae

Rydyn ni'n gwybod ei bod yn bwysig chwarae gyda'n plant. Mae chwarae hefyd yn ffordd dda o'u haddysgu am arian. Cofiwch am yr hyn rydych chi wedi bod yn ei drafod yn eich cwrs rhiant. Dilynwch arweiniad eich plant, gadewch i'w dychymyg nhw eich tywys chi. Wrth i chi addysgu eich plant am arian drwy chwarae, esboniwch sut mae arian yn gweithio a siarad am yr hyn rydych chi'n ei wneud. Yn ogystal â chwarae siop, gallwch ddyfeisio gemau gyda cheiniogau, chwarae rôl ac adrodd straeon gyda'ch gilydd. Y peth pwysig yw ei wneud yn hwyl!

O gwmpas y tŷ

- ✓ Os yw'ch plant yn gwylio'r teledu, ymunwch â nhw. Siaradwch am hysbysebion ac egluro nad ydynt yn real a'u bod yn ceisio dwyn perswad arnoch i brynu pethau.
- ✓ Siaradwch am yr hyn sy'n digwydd ynghylch arian mewn llyfrau, ffilmiau neu ar y teledu gyda'u hoff gymeriadau teledu.
- ✓ Meddyliwch am gael lle diogel i'ch plentyn gadw arian, fel cadw-mi-gei. Trafodwch pam ei bod hi'n bwysig cadw arian yn ddiogel a sut y gwnawn ni hynny.
- ✓ Siaradwch am gynilo — "beth am gadw'r arian ar gyfer rhywbeth y byddwn yn wirioneddol ei angen rhyw dro eto! Pryd fydd gennym ddigon o arian i dalu amdano?

Ar grwydr

- ✓ Yn y siopau gadewch i'r plant dalu. Mae dysgu sut i ddelio ag arian yn bwysig, felly rhowch arian i'r plant a'u helpu i dderbyn y newid.
- ✓ Rhowch ychydig o arian i'ch plentyn brynu rhywbeth y dymuna ei gael. Rhowch gymorth i'ch plentyn weld beth all ei fforddio, dangoswch iddynt sut i dalu a sut i wirio'r newid.
- ✓ Os ydych yn defnyddio cardiau i dalu neu'n cael arian parod o beiriant, eglurwch fod y cardiau yn siarad â'r banc sy'n cadw'ch arian—ac ni chewch eu defnyddio os nad oes gennych chi arian yn y banc.*
- ✓ Mae defnyddio'ch llyfrgell lyfrau neu deganau leol yn gyfle da i egluro nad yw popeth yn gorfod costio arian. Cynlluniwch ragor o dripiau eraill gyda'ch gilydd.
- ✓ Siaradwch am bethau nad ydynt yn costio arian y gallwch fwynhau gyda'ch gilydd.

Cofiwch ei bod hi'n iawn dweud na wrth eich plant pan ofynnant am bethau. Gweler ein hadran ar Ddelio â Dyheadau ar dudalen 16 am syniadau ar wneud hyn yn ennyd dysgu.

*Gwyddom nad yw cael arian parod gyda cherdyn mor hawdd â hyn, ond dyma un ffordd y gallwch egluro pethau i blant.

Addysgu'ch plant: 5-6 oed

Daliwch ati i wneud yr un pethau yr oeddech yn eu gwneud pan oedd eich plentyn yn ifancach. Mae plant yn dal i ddysgu drwy chwarae ond yn dechrau dysgu hefyd drwy'r pethau sy'n digwydd o'u cwmpas. Mae'n oedran gwych i siarad mwy am sut rydych chi'n defnyddio eich arian a gofyn iddynt eich helpu i gynilo.

Beth alla' i ei wneud i gynilo arian?



Cynilo arian

- ✓ Gall plant ddechrau deall bod angen i chi ddysgu cynilo arian ar gyfer pethau. Bydd dysgu disgwyl yn eu helpu wrth iddynt dyfu'n hŷn.
- ✓ Meddyliwch am rywbeth bach i'w gynilo amdano fel teulu. Cynilwch gyda'ch gilydd mewn cadw-mi-gei neu yn y banc.
- ✓ Siaradwch am ffyrdd o arbed arian, fel diffodd goleuadau neu brynu llai o bethau. Gofynnwch i'ch plant eich helpu i greu syniadau ar gyfer cynilo. Gallent wneud darlun o'r pethau maent am roi cynnig arnynt.
- ✓ Cadwch olwg ar eich cynilion gyda'ch gilydd a phan fydd gennych chi ddigon, prynwch anrheg fel teulu.

Yn y siopau

- ✓ Mae plant wrth eu bodd â her—a allant eich helpu i gynilo arian? Gwnewch restr gyda nhw a gofyn iddynt wneud yn siŵr eich bod yn dal ati.
- ✓ Dangoswch i'r plant fod rhai pecynnau yn llachar, yn lliwgar ac yn costio mwy, tra gall eraill fod yn llai lliwgar ac yn llai o hwyl—ond mae'r hyn sydd y tu mewn yr un fath a gall gostio llai.
- ✓ Siaradwch am ddymuniadau o'u cymharu ag anghenion. Mae angen bwyd arnoch ond beth am bethau moethus achlysurol fel cacennau?
- ✓ Gall plant yn awr ddeall yn well pam eich bod yn prynu rhai pethau ond nid rhai eraill. Gallwch egluro fod gennych chi arian ar gyfer yr hyn sydd ei angen arnoch nawr (fel bwyd) ond bod angen cynilo ar gyfer pethau ychwanegol, megis teganau.
- ✓ Siaradwch am werth arian...



Hysbysebion

- ✓ Beth maent yn ei weld a'i glywed yn cael ei ddweud am arian ar y teledu neu mewn ffilmiau?
- ✓ Siaradwch am sut mae hysbysebion yn ceisio gwneud i ni brynu pethau, ond nid oes yn rhaid i ni.
- ✓ Os ydynt yn gofyn am bethau gyda chymeriadau, brandiau neu enwogion arnynt, holwch pam. A yw hynny'n gwella'r cynnyrch go iawn?
- ✓ Os aiff eich plentyn ar-lein, eglurwch fod prynu apiau neu gemau newydd yn costio'n ddrud hefyd. Eglurwch eich rheol am y pethau y gwariwch eich arian arno a glynwch wrth hynny. Gwnewch yn siŵr fod gennych chi gyfrineiriau i'w hatal rhag prynu pethau heb eich caniatâd chi.

Dyma oedran da i ystyried a ydych yn dymuno talu'ch plant am wneud tasgau bach o gwmpas y tŷ. Gweler ein hadran ar Arian Poced ar dudalen 20 i weld rhagor am hyn.

Addysgu'ch plant: 7-8 oed

Mae plant yn yr oedran hwn yn fwy annibynnol. Gallant gynilo am bethau a gwneud mwy o ddewisiadau ynghylch sut i wario eu harian. Gallant ddeall, pan fyddant yn gwario eu harian, bod yr arian hwnnw wedi mynd a bod angen iddynt gynilo rhagor er mwyn prynu rhywbeth arall. Cynilo, gwario, cynilo eto!

Yn y cartref:



- ✓ Os yw'ch plentyn yn dechrau cael arian poced yn rheolaidd, siaradwch am sut y bydd yn ei gadw'n ddiogel. A fydd yn ei gadw mewn cadw-mi-gei neu yn y banc? Sut fydd eich plentyn yn cario'r arian pan fydd ef neu hi allan?
- ✓ Gall plant gael eu nodau cynilo eu hunain. Gadewch i'ch plentyn feddwl am beth hoffai gynilo amdano a pham. Faint o amser y bydd yn ei gymryd? Sut all eich plentyn gadw golwg ar hynny?
- ✓ Gyda'ch gilydd, ystyriwch bethau eraill y mae eich teulu eu hangen a'r pethau y mae pob un ohonoch eu heisiau.
- ✓ Yn yr oedran hwn gallwch ddechrau dysgu'ch plant fwyfwy am sut mae arian yn gweithio. Eglurwch, wrth i chi gynilo arian yn y banc, eich bod yn ennill rhagor o arian am ei gadw yno. Llog yw'r enw ar hyn.

Peidiwch â phoeni os bydd eich plentyn yn gwneud camgymeriad ac yn gwario'i arian i gyd. Mae hyn yn ffordd wych o ddysgu. Os bydd yn prynu tegan ac yn sylweddoli nad oes ganddo ddigon o arian ar gyfer rhywbeth arall, bydd yn gwybod sut i gynilo a dewis y tro nesaf.

Rhowch gynnig ar hyn!

Rhowch restr at ei gilydd o bethau gallech fod eu hangen neu eu heisiau ar ynys anghysbell, megis bwyd sylfaenol, dŵr, bag bin (i lochesu), matsys, rhaff, teganau, llyfrau, ffôn, pethau da ac ati. Gofynnwch i'ch plentyn ddewis 7 peth i fynd gydag ef neu hi er mwyn medru goroesi ar ynys anghysbell (a dim mwy na 7!).

1

2

3

4

5

6

7



Gallwch egluro nad ydych yn byw ar ynys anghysbell, ond bod yn rhaid i chi wneud dewisiadau ynglŷn â'r hyn rydych chi'n ei brynu.

Addysgu'ch plant: 9-11 oed

Dyma oedran gwych i ddysgu, yn enwedig gan y bydd eich plant yn mynd i'r ysgol uwchradd cyn bo hir ac yn gwneud rhagor o benderfyniadau ariannol eu hunain.

- ✓ Siaradwch am filiau ac i ble mae'r arian yn mynd. Eglurwch y gwahanol ffyrdd o dalu, gan gynnwys debydau uniongyrchol, biliau misol, ychwanegu credyd at eich mesurydd ac ati.
- ✓ Gofynnwch i'r plant eich helpu i ganfod y pris gorau drwy gymharu prisiau mewn siopau ac ar-lein.
- ✓ Mae cyllideb, neu gynllun ariannol, hefyd yn help wrth ofalu am arian. Eglurwch beth rydych chi'n gwario arno a sut gwyddoch i ble mae'n rhaid i'r arian fynd.
- ✓ Mae cadw golwg ar eich arian yn helpu i reoli arian a gall plant ddechrau gwneud hynny. Gofynnwch iddynt nodi unrhyw arian a gânt, faint ohono ac ar beth maen nhw'n ei wario.
- ✓ Siaradwch am eu ffrindiau a'u harian. Beth yw testun eu sgwrs? Pam eu bod nhw eisiau rhai brandiau yn hytrach na rhai eraill? A yw brandio yn gwella'r cynnyrch?
- ✓ Mae nifer o ysgolion uwchradd yn defnyddio cardiau neu olion bysedd i dalu. Bydd angen i blant ddewis beth i'w brynu bob diwrnod. Rhowch gymorth i blant lunio cyllideb. Beth sy'n digwydd os byddant yn mynd dros eu trothwy?

Tua'r oedran hwn gall plant ddechrau holi am gael ffôn symudol. Chi fydd yn dewis pryd i roi ffôn symudol i'ch plant, ond gallwch ddechrau siarad am arian a ffonau. Beth yw cost y ffôn? Beth yw contract? Beth yw talu wrth fynd? Beth yw'r gost bob mis? Beth os byddant yn defnyddio'u credyd i gyd? Beth sy'n digwydd os byddant yn colli'r ffôn? Dyma amser da i sefydlu rheolau'r teulu os byddant yn cael ffôn.

Gall plant ddeall mwy am fenthyca arian nawr. Eglurwch eich bod yn talu llog neu ragor o arian pan fyddwch yn benthyg arian. Mae hyn yn golygu y byddwch yn ad-dalu mwy na'r hyn y benthycwyd gennych. Gallwch siarad am fod yn ofalus gyda chredyd a pha broblemau all godi os na allwch dalu'r arian yn ôl.

Pŵer Personol

Yn yr oedran hwn gallwch drafod pŵer personol ynghylch arian â'ch plant—y pŵer sydd ganddynt i wneud dewisiadau ariannol. Gallwch egluro y gallai hyn fod yn ddewis:

- ✓ I brynu neu beidio
- ✓ I gynilo arian
- ✓ I brynu brandiau rhatach
- ✓ I newid i gwmni nwy neu drydan rhatach
- ✓ I roi ein hamser yn hytrach nag anrhegion sy'n costio arian
- ✓ Nid i brynu rhywbeth gan mai hwnnw yw'r eitem "ddiweddaraf"

Delio â dymuniadau

Pan fydd eich plant yn gofyn am bethau, mae yna ffyrdd o helpu i wneud hynny yn llai o straen i chi gan eu haddysgu nhw ar yr un pryd. **Bydd paratoi yn eich helpu i ddelio â'u ceisiadau**.



Dyma ambell syniad i chi:

- ✓ Cyn i chi fynd i siopa, **lluniwch restr**. Gadewch i blant helpu. Eglurwch na fyddwch yn prynu unrhyw beth nad yw ar y rhestr gan mai arian ar gyfer yr eitemau ar y rhestr yn unig sydd gennych chi heddiw. **Gofynnwch iddynt eich helpu i lynu wrth hynny**.

- ✓ Os ydych yn mynd i rywle heriol fel siop deganau, **cynlluniwch ymlaen llaw**. Eglurwch beth rydych yn ei brynu a pham. Daliwch ati i'w hatgoffa o'r hyn y cytunoch arno.

- ✓ Gadewch i'r plant **gynilo** am y pethau yr hoffent eu cael. Os byddant yn penderfynu gwario ar rywbeth arall, eu dewis nhw yw hynny. Os byddant yn difaru, byddant yn sicr o osgoi'r un camgymeriad y tro nesaf.

- ✓ Awgrymwch eu bod yn rhoi'r hyn yr hoffent ei gael ar eu **rhestrau pen-blwydd neu wyliau**. Yn aml mae hyn yn helpu i blant deimlo eu bod yn cael eu clywed ac mae'n delio â'r dymuniad, ac efallai y byddant yn anghofio amdano. Pan ddaw hi'n agos at ben-blwydd y plentyn, os nad yw'n dymuno cael yr eitemau mwyach, gall greu rhestr newydd. Mae'n ffordd dda hefyd o ddangos i blant sut mae eu dymuniadau yn newid ac nid y rhain yw'r pethau maent eu hangen o reidrwydd.

- ✓ Peidiwch â dweud 'na' yn unig wrth blant, **eglurwch pam**. Os nad ydych yn hapus gyda'r hyn yr hoffai eich plant ei gael, eglurwch wrthynt beth rydych chi'n dewis gwario arno a pham.

- ✓ Mae dweud bod gennym arian ar gyfer yr hyn ydym ei **angen** (bwyd, gwresogi, ein cartref) ond nid pethau a **ddymunwn** (neu bethau ychwanegol) ar hyn o bryd yn eu helpu i ddeall y dewisiadau sy'n rhaid i ni eu gwneud ynghylch arian.

Os byddant yn pwdu neu'n strancio, mae hynny'n iawn, mae plant yn dal i ddysgu sut i ddelio â'u hemosiynau. Defnyddiwch yr hyn a ddysgoch ar eich cwrs i ddelio â'r sefyllfa ond **nid oes yn rhaid i chi ildio**.

Unig ganlyniad hynny byddai annog y plant i wneud yr un peth y tro nesaf. Pan fyddant wedi pwyllo, trafodwch pam na fyddech chi'n prynu'r eitem roeddent ei eisiau. Cofiwch, os bydd plant wedi arfer cael eu ffordd eu hunain, gall fod yn anodd i ddechrau, **ond os daliwch ati byddant yn dysgu i ofyn yn llai aml**.

Arbed Arian o Gwmpas y Tŷ

Dysgwch eich plant i arbed arian o gwmpas y tŷ.



A allwch chi gynnig rhai syniadau eraill?



- Cymryd cawod yn hytrach na bath

- Diffodd y teledu a'r offer gemau ar y wal—peidiwch â'u gadael ar y golau coch

- Cynllunio prydau bwyd a phrynu'r hyn sydd ei angen arnoch yn unig

- Cau drws yr oergell

- Coginio rhagor o fwyd i'w ail-dwymo rhywbryd eto, er mwyn arbed amser ac arian

Arian poced

Mae arian poced yn ffordd wych o helpu plant i ddysgu sut i reoli eu harian eu hunain a rhoi cyfle iddynt gynilo ar gyfer pethau. Ymarfer â'u harian eu hunain sy'n bwysig, nid y swm maen nhw'n ei gael. Bydd cael 10c yr wythnos hyd yn oed yn rhoi man cychwyn i blant.

Mae nifer o ffyrdd o ddelio ag arian poced. Dyma rai syniadau ynghylch beth mae rhai teuluoedd yn ei wneud:

Rhoi arian poced wythnosol iddynt i brynu pethau da, teganau a phethau moethus eraill eu hunain

Gadael iddynt gynilo ar gyfer yr hyn yr hoffent ei gael, a rhoi teganau a phethau moethus ar adegau fel pen-blwyddi neu wyliau yn unig. Mae rhai rhieni'n dweud bod hyn yn atal plant rhag gofyn ac yn dysgu iddynt gyllidebu a chynilo.

Rhoi arian poced wythnosol iddynt ond parhau i brynu teganau, pethau moethus ac ati

Fel hyn maen nhw'n cael eu harian eu hunain i'w reoli, ond rydych chi'n dal i brynu pethau ychwanegol iddynt. Tra gall hynny ymddangos yn haws ac atal plant rhag strancio, dywed rhieni mai anfantais hyn yw bod eu plant yn dal i roi pwysau arnynt ac nid ydynt yn dysgu beth yw gwerth pethau.

Plant yn ennill arian poced trwy wneud tasgau o amgylch y tŷ

I rai rhieni, mae'r syniad o ennill eich holl arian yn arwydd da. Barn pobl eraill yw dylai plant helpu gan eu bod yn rhan o'r teulu, nid am yr arian. Efallai hefyd na fydd plant yn cael arian yn rheolaidd os nad ydynt yn helpu, a fyddai'n gwneud cynilo yn anoddach.

Rhoi arian poced wythnosol iddynt a'u hannog i ennill rhagor drwy wneud tasgau o amgylch y tŷ

Mae rhai rhieni yn hoff o hyn gan fod eu plant yn cael arian yn rheolaidd i ofalu amdano ond gallant ennill rhagor. Dywed y rhieni fod plant yn helpu rhagor ond cofiwch ystyried beth allwch chi ei fforddio. Unwaith eto, nid yw rhai rhieni yn hoff o hyn oherwydd hoffen nhw fod eu plant yn helpu fel rhan o'r teulu ac nid am arian.

Cyn i chi benderfynu beth i'w wneud, meddyliwch am beth fydd yn rhaid i'ch plant ei brynu gyda'u harian. A fyddwch chi'n prynu teganau, pethau da a chylchgronau ychwanegol neu a fyddan nhw'n talu am y cyfan? Cofiwch fod anghenion yn newid wrth iddynt fynd yn hŷn. Beth am fynd allan? Credyd ffôn? Bydd ystyried hyn yn fanwl yn eich helpu i gyllidebu a bydd eich plant yn dysgu beth i gynilo ar ei gyfer.

Mae arian poced yn gyfle da i siarad am gynilo ar gyfer nodau hirdymor fel prifysgol neu gar, ac am roi arian i elusen. Efallai yr hoffech awgrymu i'ch plant neilltuo swm o arian bob wythnos i'w roi yn y banc neu undeb credyd, neu roi rhywbeth i elusen. Mae gan rai teuluoedd 3 photyn—un i'w wario a chynilo ar gyfer pethau moethus, un i gynilo am y tymor hir ac un ar gyfer rhoi.





Beth os na allwch chi roi arian poced yn rheolaidd iddynt, neu ddim yn dymuno gwneud hynny?

Cymerwch olwg ar eich cyllideb. Efallai y gwelwch eich bod eisoes yn rhoi arian iddynt i brynu pethau felly ni fyddwch ar eich colled drwy osod swm wythnosol. Cofiwch, nid oes angen i'r swm fod yn fawr.

Os na allwch chi, neu os nad ydych yn dymuno rhoi arian poced i'ch plant, gallech siarad â'ch plant am hyn. Meddyliwch am ffyrdd eraill o'u haddysgu am werth arian. A oes yna ffyrdd y gallant ennill arian? A fydd cyfle iddynt ddelio â'u harian eu hunain er mwyn iddynt fedru dysgu? Mae plant yn wych am greu syniadau, felly mae'n werth treulio amser yn siarad â nhw am hynny.

Pethau i'w Trafod Pan Fyddwch Chi Ar Grwydr

- ✓ Rhowch gymorth i blant sylwi ble mae cynnyrch yn cael eu gosod yn y siop. Ble mae cynnyrch y plant, fel grawnfwydydd? Ble mae'r rhai oedolion?
- ✓ Ar lefel llygad pwy y mae enwau brand yn cael eu rhoi? A beth am frand y siop?
- ✓ Cymharwch bris pethau gyda'ch gilydd.

- ✓ Edrychwch ar fargeinion gyda'ch gilydd. Trafodwch y ffaith nad yw'n fargen dda oni bai fod angen y cynnyrch arnoch.
- ✓ Siaradwch am leoliad pethau yn y siop a'r rheswm am hynny.
- ✓ Sylwch ar arogleuon, a ydynt yno i godi blys arnoch?
- ✓ Beth sydd wrth y til a pham felly?
- ✓ Chwiliwch am hysbysebion a siaradwch am eu nod a'u dull o hysbysebu.

CYNIGION 2 AM BRIS 1
rhaid gorffen cyn bo hir

SÊL

PRYNWCH 3
a chael y rhataf am ddim
dewis a dethol eitemau

Ar grwydr

- ✓ Gadewch i'r plant eich helpu i gymharu prisiau yn y siop. Edrychwch ar enw brand a brand y siop, pa un sydd fwyaf costus? Pam? Sut allwch chi gynilo?
- ✓ Siaradwch am hysbysebion. A yw pethau bob amser cystal ag yr ymddangosant?
- ✓ Daliwch ati i siarad am ffyrdd o arbed arian. Oes modd iddynt gael benthyg DVD o'r llyfrgell neu gan ffrind, neu wneud lolis iâ yn hytrach na'u prynu?
- ✓ Yn aml mae plant eisiau'r hyn sydd gan eu ffrindiau. Dyma gyfle i siarad am frandio, pwysau gan gyfoedion ac arian. Pam eu bod nhw ei eisiau? Beth a olygir wrth gael yr un pethau ag sydd gan eu ffrindiau?
- ✓ Gadewch i'ch plant wario pan fyddant allan, er mwyn iddynt ddysgu delio ag arian a gwneud dewisiadau ynghylch gwario.

Meithrin ein Hunain

Gwyddom y gall meddwl am hyn oll ymddangos fel tipyn o her, felly pam na wnewch chi rywbeth braf er eich budd chi'n bersonol! Nid yw edrych ar ôl ein hunain yn gorfod costio arian.

Dyma rai syniadau ar gyfer pethau y gallech eu gwneud sy'n rhad neu am ddim.

- ✓ Grwpiau chwarae
- ✓ Gwrando ar gerddoriaeth
- ✓ Mynychu dosbarth o hwyl
- ✓ Sgwrsio â ffrind
- ✓ Cofleidio
- ✓ Chwerthin
- ✓ Cerdded
- ✓ Gwneud pethau
- ✓ Mwynhau prydferthwch
- ✓ Cael bath i ymlacio
- ✓ Paned
- ✓ Coginio hoff bryd
- ✓ Gwylio DVD
- ✓ Picnic
- ✓ Mynd i'r parc

Wrth i'ch plant aeddfedu, siaradwch â nhw am bwysigrwydd edrych ar ôl ein hunain a'r ffyrdd y gallwn wneud hynny nad ydynt yn golygu gwario arian. Nid oes rhaid i ni fynd i siopa er mwyn ymlacio—mae cynifer o ddewisiadau eraill!

Ble i gael mwy o wybodaeth

Os yw meddwl am eich plant ac arian wedi gwneud i chi feddwl yr hoffech chi gael help i reoli'ch materion ariannol chi, mae digon o gymorth ar gael!

Dewch o hyd i'ch canolfan **Cyngor ar Bopeth** leol neu'ch asiantaeth cyngor am ddim.

I gael gwybodaeth am **wasanaethau teuluol** yn lleol i chi:

www.pwyntteulu.cymru

Ar gyfer dyledion gallwch gysylltu â'r canlynol hefyd:

Stepchange
0800 138 1111
www.stepchange.org

Payplan
0800 280 2816
www.payplan.com

Llinell Ddyled Genedlaethol
0808-808 4000
www.nationaldebtline.co.uk

Ble i gael cyngor am ddim ynghylch dyled yn lleol i chi:

www.moneymadeclearwales.org/home.php?page_id=3&lng=cym

www.www.moneyadviceservice.org.uk/cy/tools/canfyddwr-cyngor-ar-ddyledion/organisations

Os hoffech gael awgrymiadau a chyngor ynghylch arbed arian yn uniongyrchol drwy e-bost, tanysgrifiwch i gael ein cylchlythyr AM DDIM
www.moneyadviceservice.org.uk/cy

Peidiwch ag anghofio bod y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yng Nghymru yn rhoi cyngor ariannol am ddim ac yn ddiduedd
0300 330 0520

I orffen...

Gobeithio bod hyn wedi rhoi syniadau i chi am ffyrdd o ddysgu eich plant am arian nawr ac yn y dyfodol.

Cofiwch mai chi yw athro neu athrawes gorau'ch plentyn ynghylch arian. Nid oes yn rhaid i chi fod yn arbenigwr ariannol, y cwbl sydd ei angen yw dechrau cael sgyrsiau syml bob dydd am bethau fel gwneud dewisiadau, sut i reoli arian, ffyrdd o gynilo, siopa a sut mae arian yn gweithio. Cadwch y cyfan yn syml ac yn hwyliog os gallwch chi, ac yn addas ar gyfer eu hoedran.

Cofiwch fod helpu plant i ddysgu trwy reoli eu harian eu hunain yn allweddol. Efallai y byddant yn gwneud camgymeriadau ar hyd y daith, ac nid oes ots am hynny. **Mae'n well iddynt wneud hynny nawr!** Defnyddiwch gamgymeriadau fel cyfle i ddysgu ac i drafod beth fyddent yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf. A chofiwch, wrth i'ch plant dyfu felly hefyd bydd eu dealltwriaeth, gan wneud dysgu am arian yn waith buddiol iawn i chi ac iddyn nhw.

Os oes gennych chi gwestiynau, siaradwch â'ch gweithiwr rhiant neu ewch i wefan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn:

www.moneyadviceservice.org.uk/cy

Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi ynglŷn â'ch barn am y sesiwn arian a'r llyfryn hwn. Anfonwch eich sylwadau at:

TLD@moneyadviceservice.org.uk

Rydych chi nawr yn barod i siarad â'ch plant am arian!


Siarad
Dysgu
Gwneud